Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Awst, 2020 yn Dihewyd

PRESENNOL

Cynghorwyr : Alan Henson (Cadeirydd), Johnny Davies, Glyn Davies, Daniel Evans, Haf Hughes, Lynford Thomas, Harry Williams, Lyn Williams, Gerwyn Owen.

1.**YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Hywel Ifans, Owen Llywelyn.

2. **PERSONOL** Dim materion personol

3. DATGELU BUDDION PERSONOL Dim i'w datgelu

4. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng.Harry Williams

5.. MATERION YN CODI Dim materion I'w trafod

6. **GOHEBIAETH** Dim gohebiaeth.

7. **CYLLID**

I. **Archwilydd Mewnol**. Yn dilyn adolygiad o systemau archwiliadau mewnol a'r adroddiad ar Drefniadau a Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18 mae'n ofynnol ar y Cyngor i baratoi Cylch Gorchwyl i'r Archwilydd Mewnol yn amlinellu yr hyn ŷ'n ni'n disgwyl ohono. **Derbyniwyd** y Cylch Gorchwyl yn unfrydol a **chadarnhawyd** £150 fel tâl am y gwaith**. Penderfynwyd** anfon llythyr at Mr. Gwyn Jones yn ei wahodd i weithredu fel ein Archwilydd Mewnol am y flwyddyn 2020-2021 yn unol â'r Cylch Gorchwyl.

II. **Costau Cynhgorwyr**. Arwyddwyd taflenni gan y Cynghorwyr i dynnu allan o dderbyn y Lwfans Cynghorwyr.

III. **Tâl Gweithwyr Rhan-Amser**. Trafodwyd ychwanegu 2% i dâl y gweithwyr rhan-amser. Penderfynwyd cynnig codiad o 2% i'r Clerc o Ebrill 2020. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Johnny Davies. **Derbyniwyd yn unfrydol**. .

IV. **Asedau ac Yswiriant**. Yn dilyn derbyn y manylion yswirio gan Zurich Municipal am 2020-2021, cafwyd trafodaeth gynhwysfawr am yr asedau. **Penderfynwyd** nad oedd angen newid unrhywbeth ar yr atodlen am eleni ond i'w trafod eto yn y cyfarfod cyffredinol y flwyddyn nesa'.

V. **Rheolau Ariannol**. Trafodwyd y rheolau ariannol a ddiwygiwyd yn ystod 2019-2020 mewn ymgynghoriad â Gwyn Jones, yr Archwilydd Mewnol. Derbyniwyd yn unfrydol ar gyfer gweithredu yn ystod 2020-2021.

8. DEWIS SWYDDOGION 2020-21

	Swydd	Cynigydd:	Eilydd
i.	**Cadeirydd :** Cyng Glyn Davies	Cyng. L Thomas	Cyng. H. Williams
ii.	**Is-Gadeirydd** : Cyng. Gerwyn Owen	Cyng.H Williams	Cyng. D. Evans

Etholwyd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn unfrydol.

iii. Arwyddwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan Y Cyng. Glyn Davies

iv. **Penderfynwyd** yn unfrydol ail-ethol y **Clerc a'r Archwilydd Mewnol** i ymgymryd â'r swyddogaethau ar gyfer 2020-2021. Cynigiwyd gan Y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan Y Cyng. Haf Hughes.

9. **ASESIAD RISG**

Nododd y Cyng. Lynford Thomas, ein Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, nad oedd unrhyw newidiadau i'w gweithredu ar gyfer y flwyddyn 2020-2021**.** **Penderfynwyd** derbyn yr asesiad risg ond i'w adolygu yn y cyfarfod blynyddol y flwyddyn nesa'.

1**0**. **Y COD YMDDYGIAD**

Atogoffwyd y Cynghorwyr o'u cyfrifoldebau. **Derbyniwyd** y Cod yn unfrydol.

11. **UNRHYW FATER ARALL**

I. **Cyfrifon 2019-2020**. Cadarnhaodd y Clerc bod yr Archwilydd Mewnol wedi cwblhau y cyfrifon a dosbarthwyd yr adroddiad a'r cyfrifon yn y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar Awst 11eg, 2020

II. **Penderfynwyd** gofyn i gwmni Antur Teifi i weinyddu'r system cyflogres a PAYE ar gyfer cyflog y Clerc am 2020-21 ar gost o £5.00 y mis. Telir yr anfoneb yn flynyddol, sef £60.00 + TAW.

III. **Penderfynwyd** yn unfrydol cadw ymlaen ar drefn o gwrdd ar yr ail nos Fawrth o bob mis yn Neuadd Goffa, Felinfach, Ysgol Cribyn a Neuadd Dihewyd am 7.30yh.

IV. Wrth gymryd y gadair, diolchodd Y Cyng Glyn Davies i'r Cyng. Alan Henson am ei waith yn ystod ei gadeiryddiaeth. Diolchodd Y Cyng, Lynford Thomas yntau i'r Cyng. Alan Henson o gofio ei bod wedi bod yn flwyddyn anarferol i fod wrth y llyw. Dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd.

.